Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

10.07.24

PWYSIG

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol, hoffwn dynnu eich sylw tuag at rhai pethau pwysig cyn i ni gau am wyliau'r haf.

Ffair Haf
Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi y ffair haf yr wythnos diwethaf. Hoffwn hefyd ddiolch i bawb a fu'n brysur yn helpu i baratoi y ffair ac i'r grŵp bychan o rieni ar GRhA yr ysgol a fu'n cefnogi gyda'r gwaith trefnu.

Adroddiadau Blynyddol
Cyn diwedd y tymor byddwch wedi derbyn adroddiad blynyddol eich plentyn. Dwi'n siŵr y gwnewch ei ddarllen yn ofalus gyda'ch plentyn a chael cyfle i drafod y cynnwys gyda'ch plentyn. Os dymunwch gael sgwrs am yr adroddiadau gydag athro/awes eich plentyn, yna mae croeso i chi wneud hyn drwy drefnu amser cyfleus gyda'r athro/awes ddosbarth cyn diwedd y tymor.
Yn ogystal ag adroddiad blynyddol, byddwch hefyd yn derbyn gwybodaeth am asesiadau darllen a rhifedd cenedlaethol i flynyddoedd 2 i 6 yn unig sydd wedi ei gweinyddu yn ystod y flwyddyn.

Presenoldeb a Gwyliau
Fel yr hysbysir yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, mae presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol yn allweddol tuag at lwyddiant academaidd eich plentyn. Rydym angen i'ch plentyn fod yn yr ysgol ar gyfer pob diwrnod posib yn ystod y flwyddyn, oni bai fod rheswm dilys am absenoldeb e.e. salwch, apwyntiad meddygol. Wrth i ni agosáu at y gwyliau, hoffwn eich annog i ystyried lefelau presenoldeb eich plentyn gan feddwl yn ofalus cyn i chi drefnu eich gwyliau ar gyfer y flwyddyn 24-25, a gwneud pob ymdrech i osgoi cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Bydd angen gwneud cais trwy gwblhau ffurflen wyliau sydd ar gael o'r swyddfa neu ar y wefan os am gymryd eich plentyn o'r ysgol am wyliau neu ymweliad eraill sydd ddim yn gysylltiedig ag addysg eich plentyn. Gweler hefyd y dyddiadau tymhorau ysgol 2024-2025 ynghlwm.

Gwisg ysgol
Rydym ar drothwy gwyliau'r haf. Hoffwn eich atgoffa o drefniant gwisg ysgol o Fedi 2024 ymlaen. Yn unol â'r polisi gwisg ysgol, bydd y wisg ysgol bresennol yn parhau sef trowsus glas/sgert las, crys polo a chrys chwys glas neu gardigan yr ysgol. **Gofynnir i BOB plentyn wisgo esgidiau du i'r ysgol. Ni chaniateir trainers ac ni chaniateir esgidiau sodlau uchel/'high heels'. Mae felly digon o amser dros yr haf i chi baratoi ar gyfer trefnu gwisg ysgol ac esgidiau ysgol eich plentyn. Ni chaniateir gwisgo gemwaith chwaith, ac felly dylid cadw eitemau fel breichledau, modrwyau, clustlysau ('caniateir 'studs' bychan yn unig) adref.** Hefyd mae disgwyl i bob plentyn wisgo gwisg addysg gorfforol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau corfforol, sef **crys polo/T glas a siorts glas tywyll neu ddu**. Mae gwisg ysgol ar gael drwy gwmni RAM. Dylid labelu pob dilledyn gydag enw'r plentyn. Nid yw cit pêl-droed yn dderbyniol ar gyfer sesiynau addysg gorfforol.

Clwb brecwast / Clwb ar ôl ysgol

Os ydych angen gwneud defnydd o'r gwasanaeth Clwb Brecwast neu Glwb ar ôl ysgol, **RHAID** i chi sicrhau eich bod wedi archebu lle i'ch plentyn ymlaen llaw.

Ar gyfer y Clwb Brecwast rhaid archebu lle drwy system ParentPay. Mae'r clwb brecwast ar gael o 7.55 hyd at 8.30. Bydd taliad o £3 os yn cyrraedd rhwng 7.55 a 8.15. Bydd y drysau yn cau am 8.30.

PWYSIG - NI FYDDWN YN GALLU CYNNIG LLE YN Y CLYBIAU HYN OS NA FYDDWCH WEDI ARCHEBU LLE A THALU YMLAEN LLAW.

Bydd angen i chi gysylltu efo Miss Lowri Jarvis neu gyfeiriad mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk ar gyfer archebu lle yn y clwb ar ôl ysgol. Mae'r clwb ar ôl ysgol yn rhedeg hyd at 5.15. Fel y drefn arferol, **ni fydd yn bosib cynnig lle yn y clwb ar ôl ysgol ym mis Medi hyd nes y bydd unrhyw ddyledion blaenorol wedi'i thalu.**

Byrbrydau

Yn unol â pholisi ysgolion iach yr Awdurdod Lleol, byrbrydau iachus a ganiateir i'r plant ddod i'r ysgol ar gyfer byrbryd bore neu bnawn. **O fis Medi ymlaen ni chaniateir siocled, creision, fferins na diodydd melys neu ddiodydd pop.**

Arian sydd yn ddyledus

Gofynnwn yn garedig i unrhyw un sydd gan ddyledion i'w talu i'r ysgol e.e. arian clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol i wneud hyn cyn diwedd y tymor.

Yn olaf, hoffwn ddymuno yn dda i'r plant ac i chi fel rhieni a gofalwyr dros wyliau'r haf. Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd yn ein gadael, a phob lwc iddynt yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi ac hefyd ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr ysgol yn **cau ar ddydd Iau Gorffennaf y 18fed**, ac yn **ail agor i'r plant ar ddydd Mercher, Medi 4ydd**. (Bydd Medi'r 2ail a'r 3ydd yn ddiwrnodiau hyfforddiant i'r athrawon). Edrychwn ymlaen felly at fis Medi, ac at gychwyn blwyddyn ysgol newydd a phrysur arall!

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad ac am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn, gan ddymuno haf pleserus a heddychlon i bawb.

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth